Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Adroddiad i:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Dyddiad y cyfarfod:	**9fed Medi 2021**
Teitl:	Mynd i'r afael â materion prisio asedau yn deillio o Adroddiad Archwilio Cymru 2019/20 a sylwadau Archwilio Cymru wedi hynny
Pwrpas yr adroddiad:	I roi gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am sut yr aethpwyd i'r afael â gwella'r cyfathrebu rhwng Archwilio Cymru a'r gwasanaeth Economi ac Adfywio cyn yr adolygiad o waith Prisio Asedau 2020/21
Deilydd Portffolio ac Aelod Cabinet	**Rhodri Evans** Economi ac Adfywio

Argymhellion: Fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi cynnwys yr adroddiad

Rheswm dros y penderfnyiad: I ddarparu sicrwydd i'r Pwyllgor bod materion y tynnwyd sylw iddynt yn flaenorol yn cael sylw

Atodiadau: Dim

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Russell Hughes-Pickering

Swyddog Adrodd: Arwyn Davies

Dyddiad: 01/09/21

Cefndir

Yn dilyn adroddiad a thrafodaeth yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y 3ydd o Fehefin 2021 ar berfformiad yn ymwneud â phrisio asedau'r Cyngor, dyma ddiweddariad ar y camau a gymerwyd ers hynny i sicrhau bod gwelliannau cynaliadwy tymor byr a thymor hir yn cael eu cyflawni yn y system brisio.

Camau a gymerwyd ers Mehefin
Gan fod diffyg cyfathrebu wedi'i nodi fel mater allweddol, cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd (bob pythefnos) rhwng y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, y Rheolwr Corfforaethol a swyddogion o Archwilio Cymru wrth i baratoadau gael eu gwneud ar gyfer yr adolygiad o brisiadau 2020/21 ym mis Medi.

Rhannwyd yr adroddiad prisiadau drafft â swyddog Archwilio Cymru ac awgrymwyd gwelliannau bach. Mae'r adroddiad bellach wedi'i ddiwygio a'i gwblhau.

Mae cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng swyddogion Archwilio Cymru a swyddogion y gwasanaeth Ystadau ar Fedi 6ed i drafod y broses adolygu.

Bydd aelodau staff y gwasanaeth Ystadau wrth law yn ystod y pythefnos ar ôl y 6ed i ymateb i unrhyw ymholiadau a godir.

Gwelliannau i'r dyfodol
Bydd y gyfres o gyfarfodydd a drefnwyd rhwng y Swyddog Arweiniol Corfforaethol / Rheolwr Corfforaethol ac Archwilio Cymru yn parhau wrth i waith prisio 2021/22 gael ei wneud, fel y gellir nodi a mynd i'r afael ag unrhyw faterion fel y maent yn codi.

Bydd recriwtio i lenwi swyddi gwag yn y gwasanaeth yn digwydd yn ystod y 4-6 wythnos nesaf, a fydd hefyd yn cefnogi'r gwelliannau parhaus yn y gwasanaeth.